Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Cynllun datblygu'r Gymraeg

Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Wedi ei baratoi gyda chymorth
Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniodd gydnabyddiaeth y Comisiynydd ar 29/04/2024

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cynnig Cymraeg

# Ein sefydliad

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd (UMC) wrth galon bywyd myfyrwyr Caerdydd a dyma'r Undeb Myfyrwyr mwyaf yng Nghymru. Mae UMC yma i gefnogi myfyrwyr i ffynnu, ac i'w cynorthwyo pan na eith pethau yn ôl y disgwyl, mewn modd diogel a chynhwysol lle gall myfyrwyr fod eu hunain. Rydym yn gyson yn y tri Undeb uchaf yn y DU o ran bodlonrwydd myfyrwyr.

Gyda champysau yn Cathays a Pharc y Mynydd Bychan, mae adeilad pwrpasol yr UM ar agor 24 awr y dydd, ac mae'n gartref i gaffis, bariau, lleoliadau cerddoriaeth, asiant tai ac ardaloedd astudio er mwyn i fyfyrwyr gwneud y mwyaf o'u hamser yn y Brifysgol. Mae holl elw ein gweithgareddau masnachol yn cael eu cyfeirio at gefnogi gwasanaethau a gweithgareddau gwell a fwy ar gyfer ein myfyrwyr.

Mae'r UM wedi'i arwain gan dîm o swyddogion myfyrwyr etholedig llawn-amser sy'n cynrychioli diddordebau myfyrwyr ac yn llunio'r gweithgareddau a gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn elusen fach annibynnol, gyda threfniadau llywodraethu a chyllid ar wahân o Brifysgol Caerdydd (PC), sy'n gweithredu ar 1% o'r cyfanswm y mae PC yn gallu ei gynhyrchu, gyda thîm staffio rhesymol o 100 FTE.

Mae UMC yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau'n berthnasol â'r Gymraeg. Fel rhan o'r gwaith yma a'n hymrwymiad i'r iaith, rydym yn cefnogi myfyrwyr i gael mynediad at wasanaethau mewn iaith o'u dewis,  ac yn lobïo am welliannau i ddarpariaeth Cymraeg ar draws y sefydliad.

Mae UMC yn elusen gofrestredig gyda changen fasnachol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau i fyfyrwyr. Mae'r sefydliad yn cyflogi dros 100 o staff gyrfa a 300 o staff myfyrwyr sy'n darparu gwasanaethau anhygoel i fyfyrwyr trwy gydol y flwyddyn. Yn 2024 fe wnaethom gynnal sgôr bodlonrwydd o 91% gyda staff yn dweud y byddent yn argymell Undeb Myfyrwyr Caerdydd fel lle da i weithio, sgôr sy'n sylweddol uwch na meincnodau trydydd sector.

# Amcanion strategol craidd y sefydliad yw:

## Adeiladu cymunedau myfyrwyr

Ar draws 2000 o gymdeithasau, 65 o dimoedd chwaraeon ac amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli, mae'r UM yn helpu grwpiau myfyrwyr weithredu er budd cymunedau lleol a myfyrwyr.

## Hyrwyddo lleisiau myfyrwyr

Fel sefydliad annibynnol, dan arweiniad myfyrwyr, wedi'i bartneru â'r Brifysgol, mae'r UM yn gweithio gyda myfyrwyr ar bob agwedd o fywyd academaidd, gan roi'r adnoddau iddynt allu llunio eu haddysg a'n darparu cyngor os nad yw pethau'n mynd yn ôl y disgwyl.

## Cyfoethogi profiadau myfyrwyr

Rydym yn gweithio i ddarparu digwyddiadau a gwasanaethau arbennig yn seiliedig ar ddymuniadau myfyrwyr. O nosweithiau clwb a golff gwyllt, i deithiau i atyniadau lleol a digwyddiadau gyda'r nod o hybu lles – mae holl elw gweithgareddau UMC yn cael ei gyfeirio at wasanaethau elusennol y sefydliad.

## Hybu lles a chyfleoedd y dyfodol

Rydym yn grymuso myfyrwyr i ofalu am les eu hunain a'i gilydd, ac yn eu cefnogi wrth ennill sgiliau a gwybodaeth y bydd angen arnynt wrth iddynt ddarganfod eu lle yn y byd. O helpu myfyrwyr canfod gwaith rhan-amser trwy'r gwasanaeth Siop Swyddi i ddarparu cyngor dienw, annibynnol, am ddim.



# Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a'n cwsmeriaid

Fel Undeb, rydym yn llawn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg i'n myfyrwyr a staff. Fel sefydliad yng Nghymru, wedi'i leoli yn y brifddinas, mae'n rhan hanfodol o bopeth rydym yn ei gynnig, ac mae sicrhau bod gan fyfyrwyr a chwsmeriaid fynediad at eu hiaith o ddewis yn flaenoriaeth i ni. Rydym hefyd yn ethol Is-lywydd y Gymraeg sy'n cynrychioli'r rheiny sy'n defnyddio'r Gymraeg o fewn yr Undeb, y Brifysgol a thu hwnt. Gellir gweld ein Polisi Iaith Gymraeg yma, ac rydym yn y broses o adolygu'r polisi fel rhan o ymrwymiad o'r newydd i'r Gymraeg o fewn yr Undeb.



# Ein Cynnig Cymraeg

Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac ymgyrchoedd yn y Gymraeg, gan gynnwys:

- Swyddog etholedig llawn-amser sy'n gyfrifol am gynrychioli'r iaith Gymraeg.
- Fforwm penodol er mwyn i siaradwyr Cymraeg lleisio'u barn a rhannu eu hadborth gyda'r Brifysgol a'r Undeb.
- Digwyddiadau â ffocws Cymreig wedi'u trefnu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n diwylliant, gan gynnwys dathlu digwyddiadau megis yr Eisteddfod, Diwrnod Shwmae Su'mae, Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru.
- Gall bob myfyriwr gymryd rhan mewn fforymau democrataidd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Tu allan i ddigwyddiadau, mae'r elfennau gohebiaeth a marchnata canlynol wedi'u darparu'n ddwyieithog:

- Mae gan bob myfyriwr yr hawl i anfon a derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg.
- Mae ein harwyddion a phrif bosteri yn yr adeilad yn ddwyieithog.
- Mae e-byst wedi'u hanfon at gyfran fawr o fyfyrwyr yn ddwyieithog ac maent yn cydnabod dewis iaith myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys e-byst hysbysebu allanol, blogiau a chylchlythyron.
- Cyfryngau cymdeithasol: Mae gennym gyfrif X Cymraeg @undebmyfyrwyr. Mae pob cyfrif cymdeithasol arall @cardiffstudents yn cyfuno'r Gymraeg a'r Saesneg.

# Y swyddog cydlynu

**Megan Greenhalgh** – Cyfieithydd Cymraeg
**Deio Owen** – Is-lywydd Iaith, Cymuned a Diwylliant Cymru

# Cyfnod adolygu

Bydd y cynllun yma'n cael ei adolygu bob mis Mehefin gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr a bydd cynllun gweithredu blynyddol gyda gwelliannau allweddol yn cael ei gytuno.

Bydd pwyntiau gweithredu yn cael eu hadolygu bob dwy fis gan y Pwyllgor Ymgysylltiad a Chyfranogiad Myfyrwyr.



# Delio â phobl

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Wyneb i wyneb**<br>Mae modd i gwsmeriaid siarad gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg os ydynt yn gofyn am hynny | Efydd | Byddwn yn weithredol wrth annog ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg i ymgeisio am rolau dros dro yn ein canolfan groeso. Os na allwn recriwtio siaradwr Cymraeg byddwn yn galluogi siaradwyr Cymraeg o adrannau eraill y sefydliad i gynorthwyo:<br>**Gweithredoedd:**<br>1. Creu dogfen dywediadau/geirfa allweddol ar gyfer holl staff y Ganolfan Groeso<br>2. Adolygu'r ffurflen ymgeisio ac annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg ar gyfer rolau dros dro a pharhaol | Tîm y Ganolfan Groeso<br>1. Tîm Marchnata<br>2. Tîm y Ganolfan Groeso | Ebrill 2024<br>**WEDI'I GWBLHAU - Cafodd dogfen geirfa Cymraeg ei rhannu ar y 1af o Fawrth**<br>1. Mawrth 2024<br>**WEDI'I GWBLHAU**<br>2. Ebrill 2024<br>**WEDI'I GWBLHAU - Rhaid i bob manyleb person nawr cynnwys yr iaith Gymraeg fel sgil dymunol neu hanfodol.** |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Dros y ffôn**<br>Mae pob swyddog yn cynnig cyfarchiad dwyieithog. Os nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg byddant yn cynnig trosglwyddo galwadau at swyddog sy'n gallu siarad Cymraeg | Arian | Byddwn yn atgoffa staff o'r angen i ateb galwadau ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn galluogi staff i drosglwyddo galwadau ffôn at siaradwr Cymraeg os ydynt yn gofyn am barhau'r drafodaeth yn Gymraeg.<br>**Gweithredoedd:**<br>1. Datblygu dogfen geirfa/cyfarchion ar gyfer pob aelod o staff â ffôn (gan gynnwys y Ganolfan Groeso)<br>2. Annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi dros dro a pharhaol<br>3. Cynnal galwadau ffôn misol i brofi'r defnydd o gyfarchion Cymraeg | Tîm Marchnata<br><br>1. Tîm Marchnata<br>2. Pob rheolwr cyflogi (AD)<br>3. Grŵp Cymreigio | Ebrill 2024<br>**WEDI'I GWBLHAU - Cafodd dogfen geirfa Cymraeg ei rhannu ar y 1af o Fawrth. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff y Ganolfan Groeso.**<br>**Recriwtio staff dros dro ym mis Mehefin 2024, gyda sgiliau Cymraeg yn rhan bwysig o'r broses.** |
| **Ymateb i lythyrau ac e-byst**<br>Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg | Aur | Rydym yn parhau i ateb yn Gymraeg unrhyw ohebiaeth wedi'i dderbyn yn Gymraeg, heb gynnydd yn yr amser ymateb. | Marchnata | Parhaus |
| **Danfon llythyrau ac e-byst**<br>Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig bob tro | Aur | Rydym yn parhau i anfon cylchlythyron a gohebiaeth eang eraill yn ddwyieithog. | Marchnata | Parhaus |

# Gwasanaethau Cymraeg eraill

Rydym yn darparu'r gwasanaethau Cymraeg ychwanegol ganlynol:

1. Parhau i gefnogi Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd (UMCC) – yr Undeb Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o fewn yr Undeb. Mae UMCC yn darparu cefnogaeth i, ac yn cynrychioli, myfyrwyr Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd

   **Cyfrifoldeb Pwy?** - Tîm Gweithgareddau
   **Erbyn Pryd?** - Parhaus

Ailddechrau sesiynau blasu dysgu Cymraeg ar gyfer myfyrwyr a staff

**Cyfrifoldeb Pwy?** - IL y Gymraeg ac AD
**Erbyn Pryd?** - **WEDI'I GWBLHAU - 20 o staff gyrfa wedi mynegi diddordeb mewn gwersi. Yn disgwyl penodiad hyfforddwr er mwyn dechrau.**

2. Parhau â'r fenter newydd, Cinio Cymraeg – cyfle i staff ddefnyddio a dysgu Cymraeg yn ystod eu hwythnos gwaith

   **Cyfrifoldeb Pwy?** - IL y Gymraeg
   **Erbyn Pryd?** - Parhaus

3. Cyfieithu ar y pryd ar gyfer ein holl gyfarfodydd democrataidd gan gynnwys pecynnau agenda a dogfennau perthnasol

   **Cyfrifoldeb Pwy?** - Tîm Llais y Myfyriwr
   **Erbyn Pryd?** - Parhaus

4. Ymgyrchoedd – Diwrnod Shwmae Su'mae, Mae Gen i Hawl, Dydd Miwsig Cymru, a mwy

   **Cyfrifoldeb Pwy?** - IL y Gymraeg
   **Erbyn Pryd?** - Parhaus

5. Cefnogi'r Eisteddfodau – yn yr Urdd a'r Genedlaethol rydym yn sicrhau bod staff a swyddogion yn cymryd rhan ar stondin Prifysgol Caerdydd i rannu ein gwaith a chasglu barn mynychwyr am ein gwasanaethau

   **Cyfrifoldeb Pwy?** - IL y Gymraeg
   **Erbyn Pryd?** - Dros yr haf

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Cadw cofnod o ddewis iaith cwsmeriaid e.e. ar Excel neu CRM**<br>Mae gennym ni fasdata sy'n cofnodi pa gwsmeriaid sy'n siaradwyr Cymraeg | Aur | Byddwn yn parhau i ddefnyddio cronfa ddata o aelodau sydd wedi dewis Cymraeg fel eu hiaith o ddewis.<br>Byddwn yn adrodd yn ôl am ddewisiadau iaith ac yn adnabod unrhyw rwystrau sy'n atal myfyrwyr Cymraeg rhag dewis Cymraeg. | Marchnata a Gwe | Parhaus |
| **Iaith Gwaith**<br>Mae pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo nwyddau Iaith Gwaith | Aur | Bydd pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu'r iaith yn derbyn laniard Cymraeg/dysgu Cymraeg a bathodyn. Bydd y rhain wedi'u cefnogi gan bosteri iaith gwaith.<br>Byddwn yn sicrhau bod ein cronfa ddata staff, sydd ar gael ar fewnrwyd UMC, yn cael ei ddiweddaru er mwyn cadw cofnod o siaradwyr Cymraeg. Rydym yn gobeithio gweithredu ail lefel o gofnodion sy'n cymryd dysgwyr Cymraeg i ystyriaeth. | Marchnata<br>Gwe | Mehefin |

# Delwedd

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Enw ein sefydliad**<br>Mae ein henw yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig | Aur | Rydym yn parhau i ddefnyddio ein henw a logo dwyieithog ar draws pob platfform. | Marchnata | Parhaus |
| **Cardiau busnes**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Holl gardiau busnes wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog a byddwn yn parhau â hyn. | Marchnata | Parhaus |
| **Papur pennawd**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae'r papur pennawd rydym yn ei ddefnyddio yn ddwyieithog a byddwn yn parhau â hyn. | Marchnata | Parhaus |
| **Adnoddau marchnata sy'n cael eu creu – e.e. Pop-ups / Baneri / Posteri (digidol a statig)**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae'r holl ddeunyddiau marchnata sy'n cael eu creu gan y tîm marchnata canolog ar gyfer digwyddiadau, gwasanaethau a gweithgareddau Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn ddwyieithog a byddwn yn parhau â hyn. | Marchnata | Parhaus |
| **Llofnod e-bost**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Rhaid i holl lofnodion e-byst staff fod yn ddwyieithog, gan gynnwys atebion awtomatig tra allan o'r swyddfa. Byddwn yn gweithio â staff i bellach ddatblygu templedi ac atgoffa staff yn ystod cyfnodau allweddol. | Marchnata, AD | Parhaus |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Bwydlenni**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | Arian | Byddwn yn datblygu ffordd o integreiddio'r Gymraeg ar yr ap sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer bwydlenni ein lleoliadau.<br>1. Bydd diweddariadau'n cael eu gwneud i'r lluniau ar ein bwydlenni sy'n cynnwys testun Saesneg i'w gwneud yn ddwyieithog erbyn mis Mawrth<br>2. Gwaith ehangach ar ymarferoldeb erbyn Rhagfyr | 1. Lleoliadau<br>2. Marchnata | 1. Mawrth **WEDI'I GWBLHAU - Lluniau nawr yn ddwyieithog.**<br>2. Rhagfyr |
| **Gwisgoedd staff**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Byddwn yn parhau i gynhyrchu gwisgoedd staff yn ddwyieithog | Marchnata & Phob adran | Parhaus |
| **Cyhoeddiadau e.e. taflenni gwybodaeth**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae'r holl gyhoeddiadau wedi'u cynhyrchu gan adran cyfathrebu UMC yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) adroddiadau effaith blynyddol ac unrhyw lyfrynnau gwybodaeth. | Marchnata | Parhaus |
| **Ysgrifen ar gerbydau**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Nid yw UMC yn gwneud defnydd mawr o ysgrifen ar gerbydau ond, lle bod angen, byddwn yn sicrhau ei fod yn ddwyieithog. | Marchnata | Parhaus |
| **Arwyddion**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae'r holl arwyddion o fewn yr adeilad yn ddwyieithog a byddwn yn parhau i gynhyrchu arwyddion yn y ddwy iaith.<br>Bydd arwyddion adeilad newydd yn cael eu cynhyrchu ym mis Mawrth 2024 a bydd y rhain yn ddwyieithog. | Marchnata | Parhaus |

# Digidol

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Gwefan**<br>Mae ychydig o gynnwys ein gwefan / rhai tudalennau ar gael yn Gymraeg | Efydd | Rydym yn ffocysu ar ddatblygu ein prif wefan i fod yn blatfform cwbl ddwyieithog yn y blynyddoedd i ddod. Gan ei fod yn wefan wedi'i brynu oddi wrth drydydd parti, nid yw'r holl nodweddion datblygiadol o fewn rheolaeth UMC. Yn ddiweddar mae'r Tîm Gwe wedi gwneud gwaith sylweddol o ran galluedd a fydd yn galluogi'r wefan i newid rhwng Cymraeg a Saesneg.<br>1. Byddwn yn cyflwyno togl i hafan ein prif wefan (cardiffstudents.com) a fydd yn galluogi myfyrwyr i newid rhwng Cymraeg a Saesneg ar yr hafan erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br>2. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth allweddol ar y wefan yn ddwyieithog, gan gynnwys y tudalennau 'Amdanom ni', erthyglau newyddion, blogiau, gwybodaeth ddemocrataidd, a thudalennau gwybodaeth y tîm Cyngor i Fyfyrwyr<br>3. Byddwn yn datblygu cynllun er mwyn cynyddu cynnwys dwyieithog ar draws gweddill gwefan Undeb y Myfyrwyr erbyn Rhagfyr 2024 | Marchnata a Gwe | 1. Mawrth<br>**WEDI'I GWBLHAU - Mae togl nawr ar hafan y wefan. Rydym yn golygu ei weithredu ar draws rhagor o'r wefan erbyn mis Mehefin.**<br>2. Mehefin<br>3. Rhagfyr |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfryngau Cymdeithasol**<br>Mae'r mwyafrif o'n negeseuon yn ddwyieithog. Mewn rhai achlysuron byddwn yn postio'n Saesneg yn unig. | Arian | Rydym yn defnyddio dull aml-blatfform ar gyfer ein cyfryngau cymdeithasol, gan ein bod yn defnyddio gwahanol blatfformau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o fyfyrwyr. Byddwn yn datblygu ein dull er mwyn cadw'n gyfredol.<br>Egwyddorion ar gyfer cynnwys cyfryngau cymdeithasol sefydlog – Bydd holl gyfrifon @cardiffstudents UMC yn ddwyieithog gyda rhai amrywiaethau yn dibynnu ar sefydlogrwydd negeseuon ac unrhyw ofynion ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnwys.<br>1. Bydd cyfrifon @cardiffstudents yn defnyddio dull dwyieithog cyfunol ar gyfer negeseuon a fydd yn weladwy am gyfnod hirach, gyda gofyn am ryw faint o Gymraeg bob tro, hyd yn oed os nad yw cyfieithiad llawn yn bosib neu'n gywir ar gyfer y cynnwys. Ar gyfer negeseuon dros dro sy'n diflannu (megis straeon Instagram), byddwn yn defnyddio un iaith neu ddull cyfunol, fel sy'n addas<br>2. Byddwn yn parhau â'r cyfrif X (Twitter) cwbl Cymraeg @undebmyfyrwyr<br>3. Bydd cyfrifon is-frand y sefydliad yn defnyddio dull cyfunol, gan gynnwys geiriau a dywediadau Cymraeg<br>4. Byddwn yn annog ac yn cefnogi grwpiau myfyrwyr i ddefnyddio Cymraeg ar eu cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn cyhoeddi llyfryn 'geirfa allweddol' i'w cynorthwyo gyda'u cynnwys | 1. Marchnata<br>2. Marchnata<br>3. Pob adran<br>4. Marchnata a Gweithgareddau | 1. March<br>**WEDI'I GWBLHAU - Dull newydd wedi'i gytuno gyda'r Tîm Marchnata.**<br>2. Parhaus<br>3. Mehefin<br>4. Mehefin |

# Digwyddiadau

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Dewis iaith mynychwyr**<br>Rydym yn gofyn am ddewis iaith mynychwyr ar gyfer rhai digwyddiadau | Arian | Mae unrhyw fforymau neu ddigwyddiadau democrataidd yn cael eu darparu mewn modd dwyieithog, a byddwn yn parhau i hyrwyddo hyn fel opsiwn i rheiny sydd am gymryd rhan yn Gymraeg. | Llais y Myfyriwr | Parhaus |
| **Gwahoddiadau**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Bydd unrhyw wahoddiadau ffurfiol i nosweithiau gwobrwyo a chiniawau gyda rhanddeiliaid allanol yn parhau i gael eu hanfon yn ddwyieithog. | Pawb | Parhaus |
| **Ffurflenni e.e. archebu / cofrestru / gwerthuso**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | Arian | Ar hyn o bryd, mae pob arolwg sydd ar gyfer y campws cyfan yn cael eu hanfon ar blatfform digidol a'u cynhyrchu'n ddwyieithog, gan ei wneud yn glir y gall myfyrwyr ateb yn Gymraeg. | Marchnata | Parhaus |
| | | Byddwn yn sefydlu proses fel gall bob adran sicrhau bod unrhyw arolygon neu ffurflenni gan dimoedd unigol yn cael eu creu'n ddwyieithog. | Pob adran | Mawrth<br>**WEDI'I GWBLHAU - Ffurflenni wedi'u cyfieithu, staff wedi derbyn hyfforddiant.** |
| **Cyhoeddiadau e.e. rhaglen, pecyn mynychwyr**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae ein holl gyhoeddiadau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog a byddwn yn parhau â hyn. | Marchnata | Parhaus |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Arwyddion**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae'r holl arwyddion yn yr adeilad yn cael eu datblygu'n ddwyieithog. Mae arwyddion dros dro a thempledi arwyddion yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog (oni bai fod anghenion Iechyd a Diogelwch brys). | Marchnata, Canolfan Groeso | Parhaus |
| **Baneri / Pop-ups / Arddangosfeydd**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | Aur | Mae unrhyw faneri ac arddangosfeydd yn cael eu dylunio a'u cynhyrchu'n ddwyieithog, gan gynnwys stondinau grwpiau myfyrwyr yn ffeiriau'r Glas. Byddwn yn parhau â hyn. | Marchnata | Parhaus |
| **Staff neu wirfoddolwyr i gyfarch ymwelwyr**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | Arian | Byddwn yn annog pob aelod o staff i groesawu ymwelwyr yn Gymraeg, gyda hyn yn cael ei gyflwyno pan fydd staff yn dechrau a'i atgyfnerthu gan yr uwch dîm rheoli a'r Grŵp Cymreigio<br>1. Dogfen cyfarchion Cymraeg i'w dosbarthu i bob aelod o staff<br>2. Adolygu cyflwyniadau sefydlu AD | 1. Marchnata<br>2. AD | 1. Mawrth<br>**WEDI'I GWBLHAU - Ac wedi'i gyfathrebu i staff.**<br>2. Mehefin |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Tocynnau (system gofrestru e.e. tocyn.cymru / eventbrite?)**<br>Saesneg yn unig | Dim | Fel y gwaith sy'n cael ei gwblhau ar y wefan i gynyddu galluedd, byddwn yn adolygu ein galluoedd wrth werthu tocynnau fel rhan o'r broses.<br>1. Sicrhau bod tocynnau ar gyfer digwyddiadau democrataidd yn cael eu dangos yn Gymraeg<br>2. Holl ddigwyddiadau canolog UMPC i gael disgrifiadau dwyieithog | 1. Gwe<br>2. Marchnata | 1. Mehefin<br>2. Medi |
| **Hyfforddiant**<br>Nid oes unrhyw gyrsiau ar gael yn y Gymraeg ond mae ein deunydd marchnata yn ddwyieithog | Efydd | Mae hyfforddiant staff a grwpiau myfyrwyr wedi'i ddarparu mewn nifer o ffyrdd ar draws y flwyddyn. Byddwn yn dilyn y dull yma gyda phob math o hyfforddiant:<br>1. Bydd hyfforddiant wedi'i ddarparu trwy'r platfform gwasanaethau canolog wedi'i gyfieithu'n llawn, gan gynnwys:<br>a) Cyfryngau cymdeithasol<br>b) Hyfforddiant GDPR<br>c) Bydd unrhyw hyfforddiant bellach wedi'i ddatblygu'n ddwyieithog ar gyfer y platfform cyn iddo gael ei gymeradwyo<br>2. Bydd hyfforddiant wedi'i ddarparu mewn person yn cael ei adolygu erbyn Mehefin, gydag adnoddau (gan gynnwys PowerPoints) wedi'u cynhyrchu'n Gymraeg<br>3. Hyfforddiant myfyrwyr – Bydd yr holl hyfforddiant myfyrwyr ar gyfer grwpiau myfyrwyr wedi'i gynhyrchu'n ddwyieithog erbyn mis Medi | a) Marchnata<br>b) UDR<br>c) Pob adran<br>2. Pob adran<br>3. Gweithgareddau myfyrwyr | 1. Mawrth **WEDI'I GWBLHAU - Prif hyfforddiant wedi'i gyfieithu, eraill i ddilyn.**<br>2. Mehefin<br>3. Medi |

# Datblygu Gweithlu

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Recriwtio staff a gwirfoddolwyr**<br>Rydym yn nodi bod y Gymraeg yn sgil dymunol ar gyfer bob swydd newydd | Arian | Bydd pob hysbysiad swydd newydd (ar gyfer staff gyrfa a myfyrwyr) yn cynnwys y Gymraeg fel sgil dymunol. | AD<br>Siop Swyddi | Mawrth<br>**WEDI'I GWBLHAU - 3 swydd yrfaol wedi'u hyrwyddo gyda phecynnau swydd Cymraeg.** |
| **Hysbysebu swyddi gwag**<br>Rydym yn paratoi hysbysebion yn ddwyieithog os yw'r Gymraeg yn sgil dymunol neu hanfodol | Arian | Rydym wedi ymrwymo i wella darpariaeth Gymraeg ar draws ein cyflogaeth.<br>1. Byddwn yn ystyried defnyddio'r gwefannau canlynol sy'n hysbysebu swyddi Cymraeg<br>a) Golwg360<br>b) Safle Swyddi<br>c) Lleol<br>ch) Swyddle<br>2. Byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn ddymunol ac yn ofynnol lle bod angen<br>3. Bydd pob disgrifiad swydd ar gyfer rolau gyrfa lawn-amser wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog<br>4. Bydd rolau staff myfyrwyr wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog<br>5. Byddwn yn datblygu pecyn gwaith dwyieithog i gyd-fynd â hysbysebion swyddi, gyda hysbysiad clir o'r Gymraeg o fewn y sefydliad | AD, Rheolwyr adrannau, Marchnata | 1. Ebrill<br>**WEDI'I GWBLHAU - Swydd marchnata wedi'i hysbysebu ar wefan swyddi Lleol.**<br>2. Ebrill<br>**WEDI'I GWBLHAU - Mae pob rôl nawr yn cynnwys Cymraeg fel dymunol neu'n ofynnol.**<br>3. Mehefin<br>4. Medi<br>5. Medi |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Cofnodi sgiliau Cymraeg ein gweithlu**<br>Rydym yn diweddaru ein cofnod o sgiliau Cymraeg ein swyddogion yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o bwy sy'n gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg | Aur | Byddwn yn parhau i sicrhau fod ein cronfa ddata staff, sydd ar gael ar fewnrwyd UMC, wedi'i diweddaru i gadw cofnod o siaradwyr Cymraeg. Rydym yn edrych ar greu ail lefel o gofnodion sy'n cymryd dysgwyr Cymraeg i ystyriaeth. | Gwe | Parhaus |
| **Rhoi gwybod i'n gweithlu am ein gwasanaethau Cymraeg**<br>Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg | Efydd | Mae adnoddau sefydlu ar gyfer pob aelod o staff yn cael eu hadolygu, a byddant yn cael eu gwneud yn ddwyieithog.<br>Unwaith bydd y polisi Iaith Gymraeg wedi pasio a chynllun gweithredu wedi'i gytuno bydd sesiwn datblygu yn cael ei gynnal mewn Diwrnod Datblygu Staff i gyfathrebu penderfyniadau ac annog pawb i lynu at y polisi. | AD, Marchnata<br>Grŵp Cymreigio | Chwefror<br>Mehefin |

| Ein darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Beth ydym am wneud nesaf? Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad? | Cyfrifoldeb pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Dylanwadu ar bartneriaid ac aelodau i gynnig gwasanaethau Cymraeg**<br>Pan rydym yn rhannu negeseuon neu wybodaeth ar ran sefydliad rydym yn gofyn iddynt ddarparu'r cynnwys yn ddwyieithog | Arian | Byddwn yn annog hysbysebwyr trydydd parti, cwmnïau allanol sy'n llogi lleoliadau yn yr adeilad a sefydliadau partner i ddefnyddio deunydd hyrwyddo dwyieithog o fewn adeilad Undeb Myfyrwyr Caerdydd.<br>Ar hyn o bryd rydym yn cynnig cefnogaeth cyfieithu ar gyfer e-byst cylchlythyron wedi'u hanfon ar ran hysbysebwyr allanol, er mwyn sicrhau bod e-byst yn ddwyieithog. | Gwerthiant | Parhaus |
| **Dysgu a defnyddio'r Gymraeg**<br>Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg | Aur | Rydym yn ddiweddar wedi cadarnhau gwersi Cymraeg ar gyfer staff a bydd hyn yn cael ei rhannu o fewn y sefydliad. Bydd gan staff cyfle i ddysgu yn ystod eu horiau gwaith gan gynyddu hygyrchedd gwersi i rheiny sydd am ddysgu. Bydd gwersi'n dechrau ym mis Ebrill. Byddwn yn monitro faint sy'n mynychu er mwyn adolygu'r cynnig a sicrhau bod pobl yn defnyddio'r cyfle. | AD, Marchnata | Chwefror<br>**WEDI'I GWBLHAU - Mae 20 o aelodau staff wedi cofrestru, rydym yn disgwyl hyfforddwr er mwyn dechrau gwersi.** |